ATODLEN 2

Gwybodaeth a materion eraill sydd i'w cynnwys mewn hysbysiad pan fo'r amodau gofal plant neu'r amodau swyddfa bost yn gymwys

3. Yn achos mangre a ddefnyddir ar gyfer gofal plant—

(a) cadarnhad—

(i) bod yr hereditament a grybwyllir ym mharagraff 2 yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gofal plant fel a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn;

(ii) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir fel y'i disgrifir yn y Gorchymyn hwn;

(iii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl; a

(b) enw a chyfeiriad y darparwr cofrestredig a'i rif cofrestru.